



Prospectws Ysgol Gynradd Aberaeron / Aberaeron Primary School Prospectus





Croeso / Welcome

Yn Ysgol Gynradd Aberaeron, rydym yn ymfalchïo mewn meithrin amgylchedd dysgu cynhwysol, diogel a chroesawgar lle mae pob plentyn yn cael y cyfle i dyfu, datblygu a llwyddo. Ein nod yw meithrin cariad at ddysgu, hyder i archwilio syniadau newydd, a pharch tuag at ein gilydd a'n cymuned.

Rydym yn ysgol sy'n gwerthfawrogi ein gwreiddiau Cymreig, ac yn falch o gynnig addysg ddwyieithog sy'n paratoi ein disgyblion ar gyfer byd eang sy'n newid yn gyflym. Mae ein staff ymroddedig yn gweithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach i sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n werthfawrol ac yn cael ei gefnogi i gyrraedd ei botensial

Credwn yn gryf bod lles emosiynol yn hanfodol i bob unigolyn – boed yn blentyn neu'n oedolyn – er mwyn gallu ymgysylltu'n llawn â dysgu. Rhoddir gryn bwyslais ar les staff a disgyblion, gan greu diwylliant o ofal, cefnogaeth a chydweithio.

Mae cymuned yr ysgol yn greiddiol i bopeth a wnawn. Rydym yn gweithio'n agos gyda thref Aberaeron a'r ardal ehangach i sicrhau bod dolen gref rhyngom ni, gan feithrin ymdeimlad o berthyn, cyfrifoldeb a balchder lleol. Mae'r cysylltiadau hyn yn cyfoethogi profiadau ein disgyblion ac yn cryfhau ein hunaniaeth fel ysgol.

Rydym yn hoffi torri tir newydd ac yn chwilio'n barhaus am y dulliau mwyaf arloesol ac addas i ddarparu'r profiadau gorau posibl i'n disgyblion. Mae creadigrwydd, hyblygrwydd ac uchelgais yn rhan annatod o'n dull o addysgu.

Mrs Anwen Lloyd-Hughes



Pennaeth



At Ysgol Gynradd Aberaeron, we take pride in nurturing an inclusive, safe and welcoming learning environment where every child is given the opportunity to grow, develop and succeed. Our aim is to foster a love of learning, the confidence to explore new ideas, and respect for one another and our community.

We are a school that values our Welsh roots and are proud to offer a bilingual education that prepares our pupils for a fast-changing global world. Our dedicated staff work closely with parents, carers and the wider community to ensure every child feels valued and supported to reach their full potential.

I strongly believe that emotional wellbeing is essential for every individual – whether child or adult – in order to fully engage with learning. That's why we place great emphasis on the wellbeing of both staff and pupils, creating a culture of care, support and collaboration.

The school community is at the heart of everything we do. We work closely with the town of Aberaeron and the wider area to ensure a strong link between us, fostering a sense of belonging, responsibility and local pride. These connections enrich our pupils' experiences and strengthen our identity as a school.

We love to think outside the box and are always looking for the most innovative and appropriate ways to provide the very best experiences for our pupils. Creativity, flexibility and ambition are central to our approach to teaching and learning.

Mrs Anwen Lloyd-Hughes



Headteacher



Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd / Our Vision and Values



Gwybodaeth am yr Ysgol / School Information

Cyfeiriad/ Address: Ysgol Gynradd Aberaeron, Maes yr Heli, Aberaeron, Ceredigion SA46 0BQ

Ffôn/Telephone: 01545570313

E-bost/ email: swyddfa@ysgolgynraddaberaeron.ceredigion.sch.uk

Gwefan/ website: Ysgol Gynradd Aberaeron

Pennaeth/ Head Teacher: Mrs. Anwen Lloyd-Hughes



ORIAU'R YSGOL / SCHOOL HOURS

BORE: Plant sydd ddim yn mynychu clwb brecwast yn medru cyrraedd rhwng 8:45 a 9:00

DIWEDD Y DYDD : Gellir casglu eich plentyn rhwng 3:15 a 3:30 bob dydd

MORNING: Children who do not attend the breakfast club may arrive between 8:45 and 9:00.

END OF THE DAY: You may collect your child between 3:15 and 3:30 every day.



Y Cwricwlwm / The Curriculum

Ein Cwricwlwm

Mae ein cwricwlwm wedi'i gyd-lunio drwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a bydd yn bodloni'r gofynion canlynol:



Ein gwerthoedd

- Uchelgais a dyhead
- Brwdfrydedd ac anogaeth
- Caredigrwydd a pharch
- Lles ac ymddiriedaeth

Ein cwricwlwm cynhwysol

Bydd ein cwricwlwm yn codi'r dyheadau ar gyfer pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael cymorth i wireddu uchelgeisiau a dyheadau'r pedwar diben, ac i symud ymlaen. Yr ydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a sut y byddwn yn diwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

Y Pedwar Diben

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer cynllun cwricwlwm ein hysgolion. Nod ein hysgol yw cefnogi pob dysgwr i ddod yn:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd cyfoethog a phrofiadau dysgu dilyn i ddatblygu'r cysyniadau, yr wybodaeth a'r sgiliau allweddol fel y'u disgrifir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn unol â'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig.

Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh)

Bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu drwy'r 6 MDaPh o:

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Celfyddydau Mynegiannol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Dyniaethau
- Mathemateg a Rhifedd
- Iechyd a Lles



Dysgu, Dilyniant ac Asesu

Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu drwy gynllunio cyfleoedd dysgu sy'n defnyddio'r egwyddorion addysgeg.

Mae ein cwricwlwm, a gefnogir gan ddysgu ac addysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Dros amser bydd ein dysgwyr yn datblygu a gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddeall beth mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn maes neu ddisgyblaeth benodol a sut y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluedd, a'u priodoleddau a'u tueddiadau ac fe'i hysbysir gan yr egwyddorion cynnydd. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi ein dull o asesu, a'i diben yw llywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Bydd asesu'n cael ei ymgorffori fel rhan annatod o ddysgu ac addysgu. Bydd pob dysgwr yn cael ei asesu wrth fynd i mewn i'r ysgol.

Cymraeg a Saesneg

Fel ysgol cyfrwng Cymraeg bydd dysgu yn digwydd yn y Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar ymlaen, gyda'r disgyblion yn dysgu Saesneg yn ffurfiol o flwyddyn tri ymlaen.

Sgiliau trawsgwricwlaidd

Bydd ein cwricwlwm yn datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn ac i'w hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob Maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i:

- ddatblygu sgiliau gwrandao, darllen, siarad ac ysgrifennu
- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn
- fod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

Hawliau Dynol CCUHP / CCUHPA

Bydd ein hysgol yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a'r Confensiwn Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, ymhlith y rhai sy'n darparu dysgu ac addysgu.

Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith

Bydd ein cwricwlwm yn ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith a bydd yn ysbrydoli ein dysgwyr wrth iddynt freuddwydio am eu dyfodol.

Addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh)

Trwy ddilyn a gweithredu cynlluniau gwaith rhaglen Jigsaw, mae ein cwricwlwm ysgol yn cwrpasu'r canllawiau ACRh a'r Cod ACRh gorfodol. Bydd gan ein darpariaeth ACRh rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o'u cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ddull ysgol gyfan. Helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd, yw sylfaen ACRh. Mae'r cydberthnasau hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. [Jigsaw](#)

Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae 'Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg' yn un o ofynion mandadol Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr o 3 i 16 oed.

Nid oes hawl gan rieni i ofyn i blentyn gael ei dynnu'n ôl o raglen 'Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg' yng Nghwricwlwm Cymru.

Gan fod 'Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg' yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur cytûn yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu mewn 'Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg' o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

Adolygu a mireinio

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n gyson er mwyn ymateb i ymchwiliad proffesiynol, anghenion newidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cwricwlwm yn gynhwysol ac yn ymatebol, gan ddiwallu anghenion pob dysgwr. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid a byddant yn cael eu cymeradwyo gan y corff llywodraethu. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.



Our Curriculum

Our curriculum has been co-designed through engagement with all stakeholders and will meet the following requirements:



Our values

- Ambition and aspiration
- Enthusiasm and encouragement
- Kindness and respect
- Well-being and trust

Our inclusive curriculum

Our curriculum will raise the aspirations for all learners. As a school we have considered how all learners will be helped to realize the ambitions and aspirations of the four purposes, and to move forward. We have considered our ALN provision and how we will meet the needs of different groups of learners.

The Four Purposes

The four purposes are the starting point and the aspiration for the curriculum plan of our schools. Our school aims to support all learners to become:

- ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives
- enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work
- ethical, knowledgeable citizens of Wales and the world
- healthy, confident individuals, ready to live fulfilling lives as valuable members of society



The statements of what matters

Our curriculum will provide rich opportunities and authentic learning experiences to develop the key concepts, knowledge and skills as described in the statements of what is important and in line with the Statements of the This is what matters.

Areas of Learning and Experience (AOLE)

Our curriculum will provide learning experiences through the 6 AOLEs of:

- Languages, Literacy and Communication
- Expressive Arts
- Science and Technology
- Humanities
- Mathematics and Numeracy
- Health and Wellbeing



Learning, Progress and Assessment

Our curriculum will support learning by planning learning opportunities that use the pedagogical principles.

Our curriculum, supported by effective learning and teaching, enables learners to make meaningful progress. Over time our learners will develop and improve their skills and knowledge. Our curriculum focuses on understanding what it means to progress in a particular field or discipline and how learners should deepen and broaden their knowledge and understanding, their skills and abilities, and their attributes and trends and is informed by the principles of progress. This in turn supports our method of assessment, the purpose of which is to guide planning for future learning. Assessment will be incorporated as an integral part of learning and teaching. All learners will be assessed on entering the school.

Welsh and English

As a Welsh medium school, learning will take place in Welsh from the early years onwards, with English formally taught from Year three onwards.

Cross-curricular skills

Our curriculum will develop compulsory cross-curricular skills of literacy, numeracy and digital competence. Our curriculum will enable learners to develop competence and ability in these skills and to extend and apply them across all Areas. Learners will have opportunities across the curriculum to:

- develop listening, reading, speaking and writing skills
- be able to use numbers and solve problems in real life situations
- be confident users of a range of technologies to help them operate and communicate effectively and make sense of the world



Human Rights UNCRC / CCHPA

Our school will promote knowledge and understanding of Part 1 of the United Nations Convention on the Rights of the Child, and the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities, among those who provide learning and teaching.

Careers education and experiences related to the world of work

Our curriculum will incorporate careers and work-related experiences that will inspire our learners as they think about their futures.

Relationship and sexuality education (RSE)

Through following and implementing Jigsaw scheme of work, our school curriculum covers the RSA guidelines and the mandatory RSA Code. Our RSE provision will have a positive and empowering role in the education of our learners and will play a vital role in supporting them to realize the four purposes as part of a whole school approach. Helping learners to form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect, is the foundation of RSE. These relationships are essential to the development of emotional well-being, resilience and empathy. [Jigsaw](#)

Guidance on Religion, Values and Ethics

Guidance on Religion, Values and Ethics is one of the mandated requirements of Curriculum for Wales and is compulsory for all learners aged 3 to 16.

Parents do not have the right to request that a child be withdrawn from Guidance on Religion, Values and Ethics in the Welsh Curriculum.

As Guidance on Religion, Values and Ethics is a locally determined subject, the agreed syllabus sets out what should be taught in Guidance on Religion, Values and Ethics within the local authority and our curriculum will reflect these guidelines.

Review and refine

Our school curriculum will be constantly reviewed in order to respond to professional investigation, the changing needs of learners and social contexts and needs. This will ensure that our curriculum is inclusive and responsive, meeting the needs of all learners. The reviews will take into account the views of stakeholders and will be approved by the governing body. We will publish a summary of our curriculum and revise the summary if changes are made to the curriculum during the review process.



Trefniadau Asesu / Assessment Arrangements

Ar fynediad i'r ysgol, bydd pob plentyn yn cael ei asesu o fewn 6 wythnos i'w gyrraedd er mwyn i ni ddeall eu hanghenion a'u cryfderau. Mae gennym amserlen asesu ysgol gyfan sy'n sicrhau bod gwahanol elfennau'n cael eu hasesu drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, mae plant ym mlynnyddoedd 2-6 yn cwblhau asesiadau personol Llywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn. Pwrpas yr holl asesiadau hyn yw galluogi'r athrawon i gynllunio dysgu yn effeithiol er mwyn cynnig yr addysg orau i'n disgyblion.

Yn ogystal â'r asesiadau ffurfiol hyn, mae asesu'n digwydd bob dydd yn yr ystafell ddosbarth. Mae athrawon yn asesu'n barhaus ac yn rhoi adborth ar y pryd i'r disgyblion, gan sicrhau ymateb cyflym i unrhyw gamddealltwriaeth neu anawsterau wrth ddeall.

****On entry to the school, every child will be assessed within 6 weeks of arrival so we can understand their needs and strengths. We have a whole-school assessment schedule to ensure different elements are assessed throughout the year. In addition, pupils in Years 2-6 complete Welsh Government personalised assessments twice a year. The purpose of these assessments is to enable teachers to plan learning effectively and provide the best possible education for our pupils.**

Alongside these formal assessments, assessment happens daily in the classroom. Teachers continuously assess and provide on-the-spot verbal feedback, ensuring a prompt response to any misconceptions or difficulties in understanding.



Diogelu / Safeguarding

Mae diogelu wrth wraidd popeth a wnawn yn Ysgol Gynradd Aberaeron. Rydym yn sicrhau bod pob plentyn yn ddiogel, yn cael ei barchu ac yn cael ei gefnogi. Mae gan yr ysgol polisi diogelu cadarn sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd, ac mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu. Mae gennym Ddynodedig Person Diogelu (DPD) a Dirprwy DPD ar gael bob amser.

- DPD: Anwen Lloyd-Hughes (Pennaeth)
- Dirprwy DPD: Iona Davies a Geraint Thomas
- DPD Corff Llywodraethu: Rachel O'Connor

Rydym yn gweithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr a gwasanaethau allanol i sicrhau lles a diogelwch pob disgybl.

Safeguarding is at the heart of everything we do at Aberaeron Primary School. We ensure every child is safe, respected, and supported. The school has a robust safeguarding policy that is regularly reviewed, and all staff receive safeguarding training. We have a Designated Safeguarding Person (DSP) and Deputy DSPs available at all times:

- DSP: Anwen Lloyd-Hughes (Head Teacher)
- Deputy DSPs: Iona Davies and Geraint Thomas
- Governing Body DSP: Rachel O'Connor

We work closely with parents, carers, and external agencies to ensure the wellbeing and safety of every pupil.



POLISI BWLIO / ANTI-BULLYING POLICY

Mae Ysgol Gynradd Aberaeron yn cymryd bwlio o ddifrif ac mae gennym bolisi bwlio cadarn sydd ar gael ar ein gwefan. Diffinnir bwlio fel:

- Ymddygiad ailadroddus, bwriadol sy'n achosi niwed corfforol neu emosiynol
- Yn cynnwys camddefnyddio pŵer rhwng unigolion neu grwpiau

Gall hyn fod yn gorfforol, geiriol, emosiynol neu ar-lein. Rydym yn annog disgyblion a rhieni i adrodd unrhyw bryderon ar unwaith. Mae ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar atal, cefnogi'r dioddefwr, a datrys y sefyllfa.

Aberaeron Primary School takes bullying very seriously and has a robust anti-bullying policy available on our website. Bullying is defined as:

- Repeated, intentional behaviour that causes physical or emotional harm
- Involving a misuse of power between individuals or groups

This can be physical, verbal, emotional, or online. We encourage pupils and parents to report any concerns immediately. Our approach focuses on prevention, supporting the victim, and resolving the situation.



DISGYBLAETH A RHEOLAU'R YSGOL

Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn dderbyniol ac fel aelod o gymdeithas o fewn yr ysgol. Fe'u hanogir i ystyried ac i barchu hawliau ac eiddo pobl eraill. Bydd unrhyw gosb a weinyddir yn rhesymol a chymedrol yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Addysg.

Mae'r ysgol yn hybu hunan ddisgyblaeth yn unol â nodau ac amcanion yr ysgol.

Ni chaniateir rhedeg o fewn yr adeilad.

Ni chaniateir bwyta melysion na chreision yn yr ysgol ond croesewir ffrwythau.

Ni chaniateir dod â theganau nac eiddo gwerthfawr i'r ysgol os na wneir cais amdanynt gan yr athrawon dosbarth.

Dylid rhoi ysbwriel mewn biniau bob amser.

Ni ddylid cadw arian nac unrhyw beth gwerthfawr mewn cotiau a bagiau. Dylid eu rhoi i'r athrawon i'w cadw'n ddiogel.

Mae pob dosbarth yn mynd drwy'r broses o drafod a chreu rheolau penodol ar gyfer eu dosbarth pob blwyddyn.

Rydym yn ystyried 'llais y dysgwr' yn bwysig



SCHOOL RULES AND DISCIPLINE

Every child is expected to behave in an acceptable manner and as a member of a community within the school.

Children are encouraged to respect the property and rights of others.

Any punishment which is administered will be reasonable and moderate in accordance with the Education Authority's guidelines.

The school encourages self-discipline in accordance with the school's aims and objectives.

Running is not permitted in the building.

Sweets and crisps are not allowed to be eaten at school, but fresh fruit is welcomed.

Children are not permitted to bring valuable toys and property to school, unless specifically requested to do so by the class teacher. Rubbish should always be placed in bins.

Money or any valuable items should not be kept in coat pockets or bags. They should be handed over to teachers for safe keeping.

Each class goes through the process of discussing and creating their own set of class rules each year.

The 'pupil's voice' is important to us.



Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) / Additional Learning Needs (ALN)

Rydym yn falch o ddilyn Cod ADY Llywodraeth Cymru (2021) ac wedi ein cydnabod fel ysgol flaengar yn y maes. Yn 2024, cawsom ein cynnwys mewn adroddiad thematig gan ESTYN am arferion effeithiol ym maes ADY.

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cymorth sydd ei angen arno i lwyddo. Mae ein Cydlynnydd ADY yn gweithio'n agos gyda theuluoedd, staff a gwasanaethau allanol i ddarparu darpariaeth bersonol a chynhwysol sy'n diwallu anghenion unigol.

We are proud to follow the Welsh Government's ALN Code (2021) and have been recognised as a forward-thinking school. In 2024, we were featured in an ESTYN thematic report on effective ALN practice.

We are committed to supporting every learner. Our ALN Coordinator works closely with families, staff, and external agencies to provide inclusive, tailored provision that meets individual needs.

[Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol](#)

[250124-the-additional-learning-needs-code-for-wales-2021.pdf](#)



IECHYD A DIOGELWCH / HEALTH AND SAFETY

Cymerir pob gofal posibl am ddiogelwch y plant tra byddant yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni, yna os fydd angen eir â'r plentyn i Adran Ddamweiniau Ysbyty Bronglais.

Rhoddir moddion i blentyn mewn achosion arbennig yn unig - a hynny ar ôl i'r rhiant/warcheidwad gwblhau ffurflen benodol.

Ni chaniateir i blentyn adael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd.

Os fydd newid yn y modd y bydd plentyn yn mynd adref, gofynnir i'r rhieni ddweud wrth y Prifathro neu athro'r plentyn o flaen llaw am y trefniadau a wnaed.

Mae'r ysgol yn arolygu trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer disgyblion a staff yn gyson.

Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r brif fynedfa cyn cael mynediad i'r ysgol. Rhoddir cerdyn adnabod i ymwelwyr gan y Swyddog Gweinyddol.

Os fydd ymwelwyr yn ymddwyn yn anaddas tuag at ddisgybl neu aelod o staff yna gofynnir iddynt adael campws yr ysgol ar unwaith a chysylltir â'r heddlu pan fo hynny'n briodol.

Mae gan yr ysgol system larwm lladron a cheir 'ymarferion tân' yn dymhorol.

Dylir parcio ym maes parcio swyddfeydd y cyngor ym Mhenforfa ar bob cyfrif wrth ddod a'ch plentyn i'r ysgol ac wrth eu casglu o'r ysgol - pa bynnag amser o'r dydd yw hi.



HEALTH AND SAFETY

Every possible care is taken to ensure children's safety whilst they are at the school.

If a child is taken ill, or involved in an accident, the parents are contacted and, if needed, the child will then be taken to the Casualty Department at Bronglais Hospital.

Medicine will be administered to children in special instances only and on completion of a specific form by the parent/guardian

No child is allowed to leave the school early without permission. If there is a change to normal arrangements, the parents are requested to inform the Headteacher or the child's class teacher in advance.

The school regularly reviews health and safety arrangements for pupils and staff.

Every visitor must visit the main entrance before gaining access to the school. Visitors are given an identification card by the Administrative Officer.

If a visitor acts inappropriately towards a pupil or member of staff then they will be asked to leave the school campus immediately and the police informed if needed.

The school has a burglar alarm system and fire drills are held each term

Parking should always be in the council offices car park at Penmorfa when bringing your child to school and when collecting them from school - whatever time of day it is.



CLWB BRECWAST/ BREAKFAST CLUB

Mae'r Clwb Brecwast ar agor yn foreol o 0815 tan 0835 ar gyfer plant oed meithrin i flwyddyn 6. Yn ystod y cyfnod hwn gall y plant fynd i'r Neuadd i gael brecwast a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hwyl. Sicheir goruchwyliaeth o'r plant yn y Neuadd yn ystod y cyfnod hwn gan barhau hyd at 8.45 - pan fyddant yn mynd i'w dosbarthiadau. Codir tâl o £1.00 y dydd - gellir talu drwy Parentpay. Er bod clwb brecwast yn cael ei ystyried yn 'rhad ac am ddim' gan fod y bwyd yn cael ei ddarparu gan y llywodraeth - mae'r adnoddau dynol yn cael eu darparu gan yr ysgol - felly, dyna'r rheswm am godi tâl o £1.00.

The Breakfast Club is open in the mornings from 08:15 to 08:35 for children from nursery age up to Year 6. During this time, children can go to the Hall to have breakfast and take part in a variety of fun activities. Supervision in the Hall is provided during this period and continues until 08:45 - when they go to their classrooms. There is a charge of £1.00 per day - payment can be made via ParentPay. Whilst breakfast clubs are said to be 'free' as the food is provided by the government - the manpower is provided by the school - hence the charge of £1.00.

CINIO YSGOL / SCHOOL LUNCHES

Mae pob plentyn oed cynradd yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim. I'r rhai sy'n dewis dod â chinio pecyn, mae'n bwysig pwysleisio bod angen i'r pecynnau hyn fod yn iachus. Mae hefyd yn hanfodol cofrestru ar gyfer cymhwysta prydau ysgol am ddim, hyd yn oed os yw eich plentyn eisoes yn derbyn pryd ysgol am ddim, gan fod manteision ychwanegol i'r teuluoedd a'r ysgol yn deillio o hyn.

All primary-aged children are eligible for a free school meal. For those who choose to bring a packed lunch, we must stress that these need to be healthy packed lunches. It is also important to register for free school meal eligibility, even though your child already receives a free school meal, as there are many additional benefits for both families and the school.



PAM COFRESTRU AR GYFER PRYDAU YSGOL AM DDIM / WHY REGISTER FOR FREE SCHOOL MEAL ELIGIBILITY?

Er bod pob plentyn oed cynradd yn derbyn pryd ysgol am ddim, mae cofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim yn dal yn bwysig iawn. Mae hyn yn dod â manteision ychwanegol i'r teuluoedd ac i'r ysgol, megis:

- Mynediad at gymorth ariannol ychwanegol i'r ysgol drwy grantiau
- Cefnogaeth i deuluoedd gyda chostau addysg
- Sicrhau bod yr ysgol yn gallu darparu adnoddau a chyfleoedd ychwanegol i'r disgyblion

Although all primary-aged children receive a free school meal, registering for free school meal eligibility remains very important. This brings additional benefits for both families and the school, such as:

- Access to extra funding for the school through grants
- Support for families with education-related costs
- Ensuring the school can provide additional resources and opportunities for pupils

SUT I WNEUD CAIS AM BRYDIAU YSGOL AM DDIM / HOW TO APPLY FOR FREE SCHOOL MEALS STATUS:

<https://www.gov.wales/free-school-meals-information-parents-and-carers>

[Free School Meals](#)



Lles a Gofal Bugeiliol / Wellbeing and Pastoral Care

Mae lles disgyblion wrth wraidd ein hegwyddorion. Rydym yn cynnig amgylchedd diogel a gofalgarn lle mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Yn Haf 2025, daethom yr ysgol gyntaf yng Ngheredigion i dderbyn achrediad Trawsnewidiol sy'n Seiliedig ar Drawma (Trauma Informed). Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u gwreiddio yn ein diwylliant drwy ymarfer perthynol, gan ddilyn egwyddorion "When the Adults Change" gan Paul Dix, fel y mae'r awdurdod yn annog.

Mae lles plant yn flaenoriaeth i ni. Credwn fod pob plentyn angen y cyfle i fod mewn sefyllfa dda yn emosiynol er mwyn cyflawni'n academaidd. I gefnogi hyn, rydym yn cynnig amrywiaeth eang o ymyrraethau, gan gynnwys:

- ELSA (Emotional Literacy Support Assistant)
- Clwb Maethu
- Rhaglenni wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â heriau emosiynol ac adeiladu gwydnwch.

Pupil wellbeing is at the heart of our ethos. We provide a safe, caring environment where children feel valued and supported.

In Summer 2025, we became the first school in Ceredigion to achieve Trauma-Informed accreditation.

These principles are embedded through a relational approach, guided by Paul Dix's "When the Adults Change", as promoted by the local authority.

Children's wellbeing is our priority. We believe every child should have the opportunity to be emotionally ready to learn. To support this, we offer a wide range of interventions, including:

- ELSA (Emotional Literacy Support Assistant)
- Nurture Club
- Targeted programmes to address emotional challenges and build resilience.



Derbyniadau / Admissions

Gellir gwneud ceisiadau am leoedd drwy wefan yr Awdurdod Lleol. Rydym yn croesawu ymweliadau gan ddarpar deuluoedd [School Admissions](#)

Applications for places can be made through the Local Authority website. We welcome visits from prospective families. [School Admissions](#)

Gwisg Ysgol / Uniform

Mae'r wisg ysgol yn cynnwys trowsus neu shorts llwyd neu ddu, sgert llwyd neu ddu, teits llwyd neu ddu, esgidiau du neu 'trainers' du, crysau polo coch gyda logo'r ysgol, a chrysau chwys llwyd gyda logo'r ysgol. Ar gyfer Addysg Gorfforol, dylai disgyblion wisgo crys-t coch plaen a shorts du plaen. Mae modd gwisgo ffrog 'gingham' coch a gwyn yn yr haf. Dylech archebu yn uniongyrchol o gwmni GG Designs neu Pirhana Print ar gyfer y crysau polo a'r siwmperi ysgol. Dyma ddolenni i'r gwefannau:

[Ysgol Gynradd Aberaeron - piranhaprint.com](#)

[Ysgol Gynradd Aberaeron Archives - GG Designs](#)

The uniform includes grey or black trousers or shorts, black or grey skirts, grey or black tights, black shoes or black trainers, red polo tops with the school logo, and grey sweatshirts with the school logo. For PE, students should wear a plain red t-shirt and plain black shorts. Red and white gingham dresses can also be worn in the summer. You should order directly from GG Designs or Pirhana Print for school polo shirts and jumpers. Here are the links to their websites:.

[Ysgol Gynradd Aberaeron - piranhaprint.com](#)

[Ysgol Gynradd Aberaeron Archives - GG Designs](#)



YMWELIADAU/VISITS

Trefnir ymweliadau yn ymwneud â'r themâu. Bydd yr athrawon dosbarth yn ymchwilio i ymweliadau pwrpasol fydd yn cyfoethogi dysgu ac addysgu effeithiol. Gwahoddir siaradwyr/wragedd gwadd i annerch y plant yn yr ysgol.

Visits are arranged based on the class' educational theme. The class teachers research appropriate visits which will enrich effective teaching and learning. Visitors are invited to the school to address the children.

TEITHIAU PRESWYL/RESIDENTIAL VISITS:

Blwyddyn/ Year 3 - un noson yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog / one night at the Urdd Camp, Llangrannog

Blwyddyn/Year 4 - Dwy noson yng ngwersyll yr Urdd, Caerdydd / two nights at the Urdd Camp, Cardiff

Blwyddyn/Year 5 - Dwy noson yn ngwersyll yr Urdd, Glan Llyn/ two nights at the Urdd camp in Glan Llyn

Blwyddyn/Year 6 - Dwy noson yn Llundain/ Two nights in London



CODI TÂL/PAYMENTS

Gofynnir am gyfraniadau gwirfoddol i dalu costau cludiant ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r ysgol gofyn am gyfraniadau am wersi offerynnol ac ymweliadau preswyl.

Danfonir y wybodaeth berthnasol i rieni drwy Parentmail ac mae modd talu drwy Prentpay. Os oes disgybl yn derbyn cinio am ddim yna ceir gostyngiad o 50%.

Mae'r ysgol bob amser yn barod i drafod pan fo rhiant / gwarcheidwad yn pryderi am gostau sy'n ymwneud â'r ysgol.

Voluntary contributions are requested to cover transport costs for educational visits.

The school also asks for contributions for instrumental lessons and residential trips.

Relevant information is sent to parents via Parentmail, and payment can be made through ParentPay. If a pupil receives free school meals, a 50% discount is applied.

The school is always willing to discuss any concerns a parent/guardian may have about costs related to school activities.



TYWYDD GARW/INCLEMENT WEATHER

Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor. Byddwn yn rhoi gwybod ar ein gwefannau cymdeithasol a thrwy Parentmail yn syth.

Mae'n bwysig bod eich manylion cyswllt yn gyfredol rhag ofn bydd angen cau yr ysgol yn gynnar ac felly bydd angen i ni gysylltu gyda chi ar frys.

Every effort will be made to keep the school open. We will notify you immediately via our social media channels and Parentmail.

It is important that your contact details are up to date in case the school needs to close early and we need to contact you urgently.



PRESENOLDEB A PHRYDLONDEB / ATTENDANCE AND PUNCTUALITY

Mae presenoldeb a phrydlondeb yn hanfodol i lwyddiant eich plentyn. Mae absenoldeb neu gyrraedd yn hwyr yn gallu cael effaith negyddol ar eu dysgu a'u lles. Mae ein swyddogion lles yn monitro presenoldeb yn ofalus ac yn gweithredu ar unrhyw arwyddion o ostyngiad. Mae cyrraedd yn hwyr yn broblem ddifrifol ar hyn o bryd, gan achosi tarfu ar wersi ac effeithio ar lles y plentyn. Rydym yn annog rhieni i sicrhau bod plant yn cyrraedd yn brydlon bob dydd.

Mae'n hanfodol ein bod yn gwybod ar unwaith os yw eich plentyn yn absennol. Dylech ffonio'r ysgol ar y diwrnod cyntaf gyda rheswm clir dros yr absenoldeb. Rydym yn deall y gall plant fynd yn sâl o bryd i'w gilydd, ond byddwn yn gofyn am natur y salwch er mwyn monitro unrhyw achosion posibl a chadw plant a staff yn ddiogel ac yn iach.

Os oes cyfnod o chwydu neu ddolur rhydd, rhaid cadw eich plentyn gartref am 48 awr ar ôl yr episod OLAF, nid yr un cyntaf.

Attendance and punctuality are essential for your child's success. Absence or arriving late can negatively impact their learning and wellbeing. Our welfare officers closely monitor attendance and will act on any signs of decline. Arriving late is currently a serious issue, causing disruption to lessons and affecting the child's wellbeing. We strongly encourage parents to ensure children arrive on time every day

It is essential that we are informed immediately if your child is absent. Please phone the school on the first day with a clear reason for the absence. We understand that children become ill from time to time, but we will ask for the nature of the illness so we can monitor any potential outbreaks and keep other children and staff safe and well.

If there are episodes of sickness or diarrhoea, your child must stay away from school for 48 hours after the LAST episode, not the first..



Cysylltu â Ni / Contact Us

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â swyddfa'r ysgol.  01545570313  swyddfa@ysgolgynraddaberaeron.ceredigion.sch.uk

For more information, please contact the school office.  01545570313  swyddfa@ysgolgynraddaberaeron.ceredigion.sch.uk